

**Vaughan Gething AC/AM**  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau  
Cymdeithasol  
Cabinet Secretary for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/VG/2985/18

Dr Dai Lloyd AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

23 Awst 2018

Annwyl Dai,

Yn dilyn fy llythyr at y Pwyllgor ym mis Mehefin ynghylch gwasanaethau hunaniaeth rhywedd, rwy'n ysgrifennu i roi diweddariad pellach ichi ar hynt ein gwaith i wella gwasanaethau yng Nghymru.

Cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig ar 17 Awst yn cyhoeddi y bydd tîm amlddisgyblaethol, Tîm Rhywedd Cymru, yn dechrau gweld cleifion ddiwedd mis Hydref, yn amodol ar recriwtio staff arbenigol.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro hefyd wedi cadarnhau y bydd trefniadau ar waith erbyn mis Medi i gleifion sydd wedi'u gweld a'u hasesu gan Glinig Hunaniaeth Rhywedd Llundain allu parhau â'u triniaeth yma yng Nghymru.

Mae'r datganiad llawn i'w weld yn:

<https://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2018/ImprovementsToGenderIdentityServices/?skip=1&lang=cy>

Mae'r gwaith yn parhau i ddatblygu capasiti'r GIG i ddiwallu anghenion cleifion yn ehangach ac i ddatblygu gwasanaeth integredig llawn o fis Ebrill 2019.

Byddaf yn ysgrifennu eto maes o law i roi diweddariad ichi ynglŷn â'r cynnydd tuag at hyn.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Cabinet Secretary for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.